Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned ar Fai 19 2016 yn Festri Tabor.

Presennol :- Islwyn Jones, Margaret Lewis, Huw Griffith, Fred Jones, David Jones, Lyn Davies, y Cynghorydd Sirol Rowland Rees-Evans a'r clerc.

Ymddiheuriadau oddi wrth Morgan Morgan a Peter Tandy.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod blynyddol Mai 2015.

Cyflwynwyd a derbyniwyd y ffurflenni ariannol blynyddol a darllenwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol. Gan fod popeth yn ymddangos yn foddhaol, arwyddwyd y ffurflenni a'r copiau angenrheidiol yn barod i'w hanfon i'r archwilwyr allanol.

Diolchodd y Cadeirydd Islwyn Jones i'w gyd-gynghorwyr am eu presenoldeb a'u cefnogaeth, cyn trosglwyddo'r gadair i Margaret Lewis. Etholwyd Peter Tandy yn Is-Gadeirydd, ac Islwyn Jones yn Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mis Ebrill ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

<u>Materion yn codi</u>

Newid enw yn y banc. Derbyniwyd awgrym yr archwiliwr i enwebu tri person ar gyfer arwyddo sieciau ac y gallai'r clerc fod yn un ohonynt, ond dal at y drefn bresennol o gael unrhyw ddau i arwyddo.

Ras yr iaith. Derbyniwyd ateb oddi wrth Cered yn Felinfach yn rhoi llawer mwy o wybodaeth, ond ar ôl trafod penderfynwyd peidio noddi cilomedr o'r ras.

Lle chwarae i'r plant. Y Cadeirydd a'r clerc wedi ymweld â pherchennog un safle posib ond cafwyd ateb negyddol am fod gormod o oblygiadau ynghlwm wrtho. Awgrymwyd gofyn i'r Cylch Meithrin os oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau am leoliad addas.

Ciosg ffôn Moreia. Adroddwyd fod y gwaith mewn llaw.

<u>Gohebiaeth</u>

Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Mai.

Llythyr oddi wrth Bwyllgor y Neuadd yn pwysleisio pwysigrwydd peidio niweidio'r llawr gydag esgidiau anaddas a chofio diffodd y gwres a'r golau.

Bwriad y Cyngor Sir i ddiwygio rheolau Parcio oddi ar y Stryd. Datganwyd anfodlonrwydd ynglŷn â chynnig rhif 5, sef codi tâl ar ddeiliaid Bathodynnau Glas, a gofynnwyd i'r clerc ymateb i'r perwyl hynny.

Gweddnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Ar ôl y cyfnod ymgysylltu, fe gynhelir digwyddiad yn y Gerddi Botaneg ar Fai 10fed i drafod yr adborth, paratoi adroddiad, a datblygu'r opsiynnau.

Cyngor Sir wedi derbyn cais i ddileu'r llwybr ceffyl cyhoeddus 24/2. Honnir ei fod wedi ei nodi mewn camgymeriad ac mai ar hyd llwybr 24/1 y dylai redeg. Daethpwyd i'r casgliad na ellir ymateb yn foddhaol i'r cais am sylwadau gan nad oedd gan y Cynghorwyr gopi o'r Map Diffiniol sy'n dangos y llwybrau gwreiddiol. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag adran berthnasol y Cyngor Sir i gael copi o'r map, os yn bosib.

Derbyniwyd copi o Clercs and Councils Direct

Darllenwyd hanes diweddaraf Prosiect Ohio, a gyrhaeddodd trwy e-bost, ac fe'i derbyniwyd er gwybodaeth.

Gwahoddiad i un cynrychiolydd i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir yn Aberaeron Mai 20fed. Atebwyd yn nacaol.

Côd Ymddygiad diwygiedig. Gan fod hon yn ddogfen bwysig, ond yn rhy hir i'w darllen yn y cyfarfod, awgrymwyd bod pawb yn cael mynd â'r copi adref yn eu tro, a'i arwyddo i ddangos eu bod wedi ei dderbyn, cyn ei basio ymlaen i Gynghorwr arall.

Caeau Canmlwyddiant. Ddim yn berthnasol i'r ardal yma.

Ariannol

Ad-daliad treth incwm o £49.85 wedi mynd i'r banc.

Cyfriflen y banc. Cyfrif cymunedol - £3442.24, (ers hynny mae £242.21 wedi talu allan a £49.85 wedi mynd mewn). Cyfrif rhif 2 - £4676. 48.

Awdurdodwyd talu AON Insurance £329.42, a'r archwiliwr mewnol, Anthony Morgan, £100.

Unrhyw fater arall

Derbyniwyd cwyn fod y golau stryd yng nghanol y pentre ddim yn gweithio. Wedi ei gywiro erbyn hyn.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y golau sy'n fflachio i rybuddio fod plant ysgol a rhieni o gwmpas, ddim yn gweithio. Gofynnwyd i'r clerc hysbysu'r adran briodol yn Aberaeron.

Gofynnwyd i'r clerc wneud cais am finiau halen, cyn y Gaeaf, un ar riw Y Foel rhwng Trefenter a Llyn Eiddwen, un rhwng Tanrallt a Phengelli, ac un yn ardal Pengraig, Bontnewydd.

Hysbysfwrdd y pentre. Nodwyd nad yw'r drws yn cau yn foddhaol, na'r cefndir yn addas i dderbyn pinnau bawd. Cytunwyd i edrych ar fyrddau debyg mewn pentrefi eraill gyda golwg ar wella'r ddarpariaeth leol.